# Galluogi pobl ifanc i fod yn ddinasyddion gweithgar

## Trosolwg

**Ar gyfer pwy mae'r uned hon**

Mae'r uned hon ar gyfer y rhai sy'n cynorthwyo disgyblion mewn gwersi dinasyddiaeth a/neu weithgareddau yn y gymuned.

**Am beth mae'r uned hon?**

Mae'r uned hon yn ymwneud â gweithio gyda phobl ifanc i'w galluogi i ymchwilio a deall y materion yn eu cymunedau a'u rôl yn eu cymuned. Mae'n ymwneud â'u helpu i nodi eu pŵer i weithredu a'u galluogi i gyflwyno eu syniadau a'u safbwyntiau i eraill.

**Mae'r uned hon yn cynnwys dwy elfen:**

1. Helpu pobl ifanc i ddeall eu cymunedau a'u rôl ynddynt
2. Galluogi pobl ifanc i gyfleu eu barn a'u diddordebau i eraill a negodi a dylanwadu ar bobl a sefyllfaoedd.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

**Helpu pobl ifanc i ddeall eu cymunedau a'u rôl ynddynt**

P1 galluogi pobl ifanc i nodi’n glir y **cymunedau** amrywiol lle maen nhw'n byw

P2 gweithio gyda phobl ifanc i nodi materion lleol sy'n bwysig iddyn nhw

P3 creu cyfleoedd i bobl ifanc ystyried **materion ehangach** sy’n effeithio arnynt hwy a'u cymunedau

P4 cynorthwyo pobl ifanc i gydnabod eu rolau, eu hawliau a'u cyfrifoldebau fel unigolion ac yn eu cymunedau

P5 cynorthwyo pobl ifanc i nodi a gwerthfawrogi safbwyntiau gwahanol **grwpiau ac unigolion** yn eu cymunedau

P6 galluogi pobl ifanc i ddeall **prosesau gwneud penderfyniadau** yn eu cymunedau

P7 galluogi pobl ifanc i nodi **pwyntiau dylanwad** posibl yn y gymuned

P8 cynorthwyo pobl ifanc i nodi a datblygu eu sgiliau dylanwadu

P9 galluogi pobl ifanc i ddeall effaith eu camau gweithredu ar grwpiau ac unigolion eraill yn y gymuned

**Galluogi pobl ifanc i fynegi eu barn a’u buddiannau i eraill yn ogystal â negodi a dylanwadu ar bobl a sefyllfaoedd**

P10 gweithio gyda phobl ifanc i nodi a chadarnhau'r farn a'r safbwyntiau y maent am eu cyflwyno, a'r bobl y maent am eu cyflwyno iddynt.

P11 gweithio gyda phobl ifanc i fynegi eu safbwynt a'u barn yn glir

P12 cytuno â phobl ifanc pa gymorth fydd ei angen arnynt wrth gyflwyno eu safbwynt a'u barn

P13 gweithio gyda phobl ifanc i wneud yn siŵr bod **cyflwyniadau** yn realistig ac yn bodloni'r gofynion a bennir gan **eraill**

P14 galluogi pobl ifanc i esbonio, gofyn ac ateb cwestiynau a negodi eu safbwynt a'u barn

P15 cytuno ar brosesau a meini prawf llwyddiant a monitro cynnydd gyda phobl ifanc

P16 gweithio gyda phobl ifanc i adolygu deilliannau eu cyflwyniad a gweithredu arnynt

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

K1 gwahanol fathau o cymunedau

K2 materion mewnol ac ehangach sy'n effeithio ar bobl ifanc yn eu cymunedau

K3 rolau, hawliau a chyfrifoldebau unigolion a grwpiau mewn perthynas â chymunedau a chymdeithas

K4 gofynion cyfreithiol, cyfle cyfartal ac arferion gwrthwahaniaethol

K5 y ffordd y mae grwpiau diddordeb arbennig fel pobl ifanc yn rhyngweithio â grwpiau diddordeb arbennig eraill yn y gymuned

K6 prosesau gwneud penderfyniadau mewn gwahanol gymunedau

K7 pam mae'n bwysig meithrin hyder pobl ifanc yn eu gallu i ddylanwadu ar y sefyllfaoedd y maent yn gweithredu ynddynt

K8 sut i gynorthwyo pobl ifanc i ddatblygu a defnyddio amrywiaeth o sgiliau dylanwadu

K9 technegau meithrin hyder a phendantrwydd

K10 pam mae'n bwysig annog pobl ifanc i ddatblygu a chyflwyno eu barn a'u hanghenion eu hunain

K11 ystod o ddulliau ar gyfer datblygu cyflwyniad neu achos busnes

K12 ystod o ffynonellau gwybodaeth (e.e. canllawiau gwneud cais am grant dadansoddiadau o anghenion, amcanion eich hun a'r sefydliad) y gellid eu defnyddio wrth ddatblygu cyflwyniadau neu achosion busnes

K13 pa fathau o sgiliau y gall pobl ifanc eu cynnig wrth baratoi cyflwyniadau neu achosion busnes

K14 nodau, amcanion a gwerthoedd y bobl ifanc a'r bobl sy'n gwneud penderfyniadau

K15 sut i alluogi pobl ifanc i wneud cyflwyniadau effeithiol

K16 sut i weithio gyda phobl ifanc i ddatblygu eu sgiliau trafod

K17 sut i adolygu deilliannau cyflwyniadau

Galluogi pobl ifanc i fod yn ddinasyddion gweithgar

## Geirfa